## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (NANT-Y-FFIN I GYLCHFAN BRYNICH, ABERHONDDU, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2024

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, rhwng Nant-y-ffin ac Aberhonddu yn Sir Powys.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rheini a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys), beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A479 yn Nant-y-ffin hyd at ei chyffordd â Chylchfan Brynich yn Aberhonddu, Powys.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd-orllewin o ben de-ddwyreiniol y darn o'r ffordd sydd ar gau fydd mynd ar yr A479 tua'r gogledd i Fronllys ac yna'r A438 a'r A470 tua'r de-orllewin i Gylchfan Brynich. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de-ddwyrain o ben gogledd-orllewinol y darn o'r ffordd sydd ar gau.

Disgwylir i'r gwaharddiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, ddod i rym am 00:01 o'r gloch ar 10 Mehefin 2024, a byddant mewn grym am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.  Disgwylir i'r ffordd gau yn ysbeidiol naill ai dros nos (19:00 o'r gloch i 06:00 o'r gloch) neu yn ystod oriau nad ydynt yn oriau brig pan fo'n bosibl hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A40 TRUNK ROAD (NANTYFFIN TO BRYNICH ROUNDABOUT, BRECON, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS AND PEDESTRIANS) ORDER 2024

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road between Nantyffin and Brecon in the County of Powys.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services), cyclists and pedestrians from proceeding on the length of the A40 trunk road that extends from its junction with the A479 at Nantyffin to its junction with Brynich Roundabout at Brecon, Powys.

The alternative route for north-westbound traffic from the south-eastern extent of the closure will be via the A479 northbound to Bronllys and then the A438 and A470 south-westbound to Brynich Roundabout, Brecon. Vice versa for south-eastbound traffic from the north-western extent of the closure.

The temporary prohibitions, which will be signed accordingly, are expected to come into force at 00:01 hours on 10 June 2024 and will be in force for a maximum period of 18 months. The road closures will be in force either overnight (19:00 hours to 06:00 hours) on an intermittent basis or during off peak hours where possible until the temporary traffic signs are permanently removed. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government